# Cod Ymarfer Ar Gyfer Derbyn Rhddion A Lletygarwch

**COD YMARFER AR GYFER DERBYN RHODDION A LLETYGARWCH**

## Cyflwyniad

1. Mae'r Cod Ymddygiad statudol i staff, sy'n rhan o gytundeb gwaith pob swyddog, yn dweud fod gan y cyhoedd yr:

   *"hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf oddi wrth bob cyflogai cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. Rôl cyflogeion o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol."*

   Mae'r Cod hefyd yn dweud fod rhaid i swyddogion gydymffurfio â:

   *"unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i gyflogeion ddatgan lletygarwch neu roddion a gynigiwyd iddynt neu a gymerwyd ganddynt oddi wrth unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud busnes neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r awdurdod, neu sy'n manteisio neu'n ceisio manteisio mewn modd arall o gael perthynas â'r awdurdod. Rhaid i gyflogeion cymwys beidio â derbyn buddion oddi wrth drydydd parti oni bai fod eu hawdurdod perthnasol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny"*

2. Nid yw'n bosib rhagweld pob sefyllfa a all godi ond pwrpas y polisi hwn yw egluro'r egwyddorion sylfaenol a chynnig arweiniad ymarferol i alluogi swyddogion i ymdrin â chynigion o roddion neu letygarwch.

3. Gall methu cydymffurfio â'r polisi hwn arwain at gamau disgyblaeth.

## Egwyddorion

4. Drwy iddynt dderbyn cynnig o rodd neu o letygarwch, gall ymddangos fel pe bai swyddogion yn cael eu dylanwadu wrth wneud penderfyniadau. Egwyddor sylfaenol y polisi hwn yw na ddylai swyddogion wneud unrhyw beth a allai greu'r argraff eu bod wedi eu dylanwadu gan rodd neu letygarwch i weithredu o blaid neu yn erbyn unrhyw un. Rhaid ystyried os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd feddwl hynny - nid

yw'n ddigon bod swyddog yn fodlon na fyddai mewn gwirionedd yn cael ei (d)dylanwadu, neu nad oedd bwriad gan y sawl sy'n cynnig i geisio dylanwadu. Nod y polisi yw sicrhau tryloywder yng ngweithgareddau'r Cyngor, ac fel canlyniad gwarchod swyddogion rhag cyhuddiadau o gamymddwyn.

**Rhoddion**

5. Yn gyffredinol dylid gwrthod pob rhodd a gynigir i swyddog yn rhinwedd ei swydd.

6. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau, ni fydd hi'n ymarferol neu'n rhesymol gwrthod. Ceir arweiniad pellach ar sefyllfaoedd o'r fath yn y canllawiau yn yr **Atodiad** i'r polisi hwn.

7. Os oes gan swyddog unrhyw amheuaeth dylai geisio barn Cyfarwyddwr Dinesig. Dylai'r Cyfarwyddwr Dibesig geisio barn Pwyllgor Staffio'r Cyngor os oes ganddo/ganddi amheuaeth ynglŷn â sut i weithredu.

8. Bydd rhaid cael caniatâd gan Cyfarwyddwr Dinesig i gadw unrhyw rodd, heblaw os ceir caniatâd drwy ddarpariaeth benodol yn y polisi hwn.

9. Dylid cofrestru pob cynnig os derbynnir y rhodd neu os gwrthodir ef, (heblaw os yw'r polisi hwn yn nodi eithriad penodol) drwy ddefnyddio'r ffurflen briodol, a'i ddanfon at y cyfarwyddwr Dinesig.

**Lletygarwch**

10. Rhaid ystyried unrhyw gynnig o letygarwch yn ofalus. Ni ddylid derbyn cynnig os gallai'n rhesymol greu'r argraff fod swyddog yn cael ei ddylanwadu'n amhriodol i weithredu mewn ffordd arbennig.

11. Serch hynny, mae'n rhaid cydnabod fod cynigion o letygarwch yn gyffredin mewn rhai meysydd ac na fyddai'n ymarferol nac yn angenrheidiol gwrthod pob cynnig. Ceir manylion o sefyllfaoedd o'r fath a chanllawiau i gynorthwyo swyddogion i ymdrin â chynigion yn yr **Atodiad** i'r polisi hwn.

12. Bydd rhaid cael caniatâd gan Cyfarwyddwr Dinesig i dderbyn unrhyw gynnig o letygarwch, heblaw os ceir caniatâd drwy ddarpariaeth benodol yn y polisi hwn.

13. Dylid cofrestru pob cynnig os derbynnir y cynnig neu os gwrthodir ef, (heblaw os yw'r polisi hwn yn nodi eithriad penodol). Dylid cwblhau'r ffurflen briodol, a'i ddanfon at y Cyfarwyddwr Dinesig.

Deddfwriaeth arall berthnasol

**Yn ogystal â darpariaethau'r polisi hwn, mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ato isod hefyd yn berthnasol:**

**Deddfau Atal Llygredd 1889 - 1916.**

13. O dan Ddeddfau Atal Llygredd 1889 - 1916, sy'n parhau'n berthnasol, y mae'n drosedd i weithwyr ddisgwyl na derbyn unrhyw rodd, benthyciad, tâl, gwobr na mantais oherwydd iddynt ganiatáu dylanwadu arnynt yn eu galwedigaeth swyddogol. Lle ceir tystiolaeth bod gweithiwr wedi derbyn unrhyw arian, rhodd neu gydnabyddiaeth arall gan berson sydd yn dal neu yn ceisio cael dal contract gyda'r Cyngor, gellir cymryd hyn fel llygredd oni bai fod tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Felly, os cyhuddir gweithwyr o'r drosedd hon, eu cyfrifoldeb hwy yn bersonol fydd dangos na fu ganddynt ffafriaeth na diffyg ffafriaeth tuag at unrhyw berson na chwmni oedd yn ymwneud â'r contract.

14. Gall peidio â chydymffurfio â'r Deddfau hyn arwain at ddisgyblaeth o dan God Disgyblu'r Cyngor ac at erlyniad. O'i ddedfrydu, gall troseddwr wynebu dirwy, a / neu garchar, a cholli manteision blwydd-daliadau.

**Deddf Llywodraeth Leol 1972**

15. Dan Isadran 2 o Adran 117 mae'n drosedd i weithwyr Cyngor dderbyn unrhyw dâl na gwobr heblaw eu cyflog. O'i ddedfrydu, bydd troseddwr yn wynebu dirwy.

**ATODIAD**

**CANLLAWIAU**

Rhaid ystyried pob sefyllfa ar ei ffeithiau ac yng nghyd-destun egwyddorion sylfaenol y polisi.

Rhaid ystyried bob tro sut y byddai’r cyhoedd yn gweld cynnig, a dylid edrych arno yng nghyd-destun yr hyn a gynigir, i bwy y gwneir y cynnig, pwrpas y cynnig, y budd y gallai’r cynigydd ei dderbyn, a pherthynas y cynigydd gyda’r Cyngor ar y pryd.

Tra’n amhosib llunio rhestr gyflawn o sefyllfaoedd posib, mae’r canlynol yn ganllawiau i gynorthwyo swyddogion i ymdrin â chynigion. Gellir cysylltu â’r Cyfarwyddwr Dinesig am gyngor ac arweiniad pellach ar y polisi ac ar sut i ymateb i gynigion penodol.

**<u>Rhoddion</u>**

- Ym mhob achos dylid ystyried egwyddor sylfaenol y polisi hwn (gweler paragraff 4).

- Cynigir rhoddion bychan (yn aml yn dymhorol) megis beiros, dyddiaduron a chalendrau gan gwmnïau fel arfer. Gellir derbyn y rhain heb ofyn caniatâd uwch swyddog na’u cofrestru. Nid oes rhaid dod o hyd i union werth rhodd o’r fath ond os yw’n yn ymddangos yn werth mwy na £10 yna dylid ei wrthod.

- Gall fod yn anodd i swyddog sy’n darparu gwasanaethau personol (e.e. staff gofal) wrthod rhodd gan gleient gan y gallai beri loes i’r sawl sy’n ei gynnig. Mewn achosion o’r fath mae’n bosib defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn. Dylid hysbysu rheolwr llinell o gynnig o’r fath a dylai ef/hi benderfynu a ddylid ei wrthod, ei dderbyn neu ymdrin ag ef mewn ffordd arall (e.e. ei roddi i elusen).

- Dylid ystyried pwy sy’n cynnig, beth yw perthynas y sawl sy’n cynnig gyda’r Cyngor ac a oes tebygrwydd y bydd yn ceisio rhywbeth gan y Cyngor?

- Gall amseriad y cynnig fod yn arwyddocaol. Os yw’r sawl sy’n cynnig yn disgwyl penderfyniad o unrhyw fath gan y Cyngor (e.e. contract, grant, cais cynllunio) dylid gwrthod y cynnig.

- Mae unrhyw siawns a gynigir i swyddogion i brynu nwyddau neu wasanaethau am bris is na’r arfer i’w gyfrif fel rhodd a dylid ei wrthod bob tro.

- Weithiau gallai fod yn anymarferol neu’n amhosib dychwelyd rhodd, ond nid yw hyn yn golygu’n angenrheidiol y gall y swyddog ei gadw. Dylid ystyried os gellid ei roi i rywun arall, e.e. i elusen, i gartref henoed, ei arddangos yn nerbynfa’r swyddfa.

- Weithiau cynigir rhodd fel cydnabyddiaeth o rywbeth y mae swyddog wedi ei wneud, sydd yn gysylltiedig â'i (g)waith ond sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig i ddeilydd y swydd (e.e. siarad gyda chymdeithas gyda'r nos). Rhaid ystyried yr amgylchiadau yn ofalus bob tro, ond mae hyn yn sefyllfa lle y gallai fod yn iawn i dderbyn rhodd fechan, resymol.

**Lletygarwch**

- Ym mhob achos dylid ystyried egwyddor sylfaenol y polisi hwn (gweler paragraff 4).

- Mae mynychu ciniawau busnes achlysurol a rhesymol yn arfer busnes cyffredin ac nid oes angen caniatâd cyn derbyn gwahoddiad ond dylid eu cofrestru. Yn yr un modd mae lluniaeth ysgafn (e.e. te, coffi bisgedi, brechdanau) sy'n cael ei ddarparu fel rhan o ddigwyddiad, sydd fel arall yn dderbyniol, yn iawn ac nid oes raid ei gofrestru.

- Os yw swyddog yn cael gwahoddiad i ginio neu ddigwyddiad mwy ffurfiol, neu i giniawau busnes rheolaidd, neu os oes ganddo/ganddi unrhyw amheuaeth am unrhyw fath o gynnig, dylai ofyn i reolwr llinell am ganiatâd cyn derbyn. Gallai digwyddiadau o'r fath gynnwys cinio ffurfiol gyda'r nos, cyngerdd, neu ddigwyddiad chwaraeon.

- Pwy sy'n cynnig? Beth yw perthynas y sawl sy'n cynnig gyda'r Cyngor? A oes tebygrwydd y bydd yn ceisio rhywbeth gan y Cyngor?

- Gall amseriad y cynnig fod yn arwyddocaol. Os yw'r sawl sy'n cynnig yn disgwyl penderfyniad o unrhyw fath gan y Cyngor (e.e. contract, grant, cais cynllunio) dylid gwrthod y cynnig.

- A yw'n rhesymol i ddisgwyl i'r Cyngor gael ei gynrychioli yn y digwyddiad? Os felly ydi hi'n addas i'r swyddog gynrychioli'r Cyngor yno? A fyddai'n fwy addas i Arweinydd Portffolio neu Gadeirydd y Cyngor fod yn bresennol er enghraifft?

- Oes angen i'r swyddog fod yno i gael gwybodaeth a allai fod o fudd i'r Cyngor neu i roi gwybodaeth ar ran y Cyngor?

- Ai'r swyddog fydd yr unig westai? Os felly dylid fel arfer gwrthod y cynnig.

- Ydy'r lletygarwch yn ormodol yn yr amgylchiadau? Mae perygl i gynigion o'r fath ymddangos fel ymgais i ddylanwadu.

- Lle bydd angen ymweliadau i archwilio cyfarpar neu mewn perthynas â gosod unrhyw gytundeb, dylai swyddogion sicrhau bod yr awdurdod yn ariannu'r ymweliadau hyn er mwyn sicrhau tegwch unrhyw benderfyniad sy'n deillio ohonynt.